Mumbles Community Council

# Minutes of Culture, Tourism and Communications Committee
# Held on Wednesday, 24 September 2025 at 2.00pm
# Hybrid Meeting at Ostreme Centre and via Teams

**Councillors Present:** Cllrs. Angela O'Connor (Chair), Rob Marshall (Vice Chair), Richard Jarvis, David Lewis and Tim Zhou.

**Officers Present:** Ian Hughes - CSO

**CT2509-01** **Apologies for Absence**
Cllr Martin O'Neill and Cllr Jarvis notified The Chair that he had been delayed.

**CT2509-02** **Declarations of Interest**
None

**CT2509-03** **Minutes of the Previous Meeting of the Committee**
To approve the minutes of the meetings held on 23 July 2025 as a true record.

**RESOLVED:** to approve the meeting minutes held on 23 July 2025 as an accurate record.

**CT2509-04** **Update on actions from previous meetings.**
The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of outstanding 'actions' to committee members.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.

**CT2507-05** **Budget Monitoring Report to 31/07/2025 - RFO, Paul Beynon**
Financial reports prepared by RFO, Paul Beynon had previously been distributed to committee members. No questions relating to the budget reports had been provided either to the CSO or the RFO prior to the meeting.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 31 July 2025.

Mumbles Community Council

**CT2509-06** **Budget 2026/27**

The RFO had previously circulated the Budget Timetable 2026/27 report to the Committee, the report outlined the actions required to be taken by Council and Committees leading up to the approval of the budget and precept by Council by 31/01/2026..

**RESOLVED** that any budget proposals be discussed and agreed upon at October's Meeting with the forms being submitted to The RFO before 31st October 2025.

**CT2509-07** **Ideas/Events for The Hub – Recommendations to MCC Officers**

The following ideas were discussed as potential events for The Hub:

- Cabaret Evenings
- Opera Suppers
- 'Pop up' events
- Coffee and cake/tea and toast events.

A discussion on the role of the committee making recommendations to Full Council together with the role of officers within the newly created Hub Working Group took place. Clarification was sought in relation to the role of the Culture Committee making such recommendations directly to Full Council.

The relevant section from the minutes of September's Full Council Meeting was read out by CSO which provided clarity on the Full Council's decision to create the new Working Group and its role. Set out below:-

*The CO and Chair, Cllr Will Thomas outlined how best to progress suggestions in relation to Underhill Park. The consensus of the Full Council was that due to the number of potential suggestions/recommendations there would be insufficient time to discuss such ideas at Full Council or even at committee level.*

*It was agreed that this agenda item related only to the management and structure of progressing ideas and that details of proposed suggestions should not be discussed.*

*It was resolved that any ideas and suggestions in relation to Underhill be forwarded to a working group, initially to consist of The CO, the newly appointed Booking Officer and Natalie Williams of The Hub. Following an initial assessment of the ideas, those deemed to have reached the necessary standard will be forwarded to The Community and Social Development Committee for recommendations to be made. An appeal process will be created.*

**ACTION** the CSO to communicate with CO and RFO and confirm timetable and members to be included within The Hub Recommendations Working Group.

Cllr Jarvis joined the meeting at 2.09pm

Mumbles Community Council

**CT2509-08** **Raft Race Update**

The Chair, Cllr O'Connor confirmed that MCC had provided a 'speaker system' to the organisers of the Raft Race, but unfortunately the event was cancelled due to inclement weather.

**CT2509-09** **Christmas Lights 2025**

Prior to the meeting a detailed quote had been provided by Phillips Services (Wales) Ltd for the hiring and installation of lights within MCC. This had been circulated to committee members prior to the meeting. Arrangements for the Christmas Lights in 2025 were discussed with an overall cost expected to be in the region of £19,000.

**RECOMMENDED** that Full Council approve expenditure of up to £19,000 for hiring and installation of Christmas Lights within MCC's area.
**From budgets CTC 3 & 4**

**CT2509-10** **MumblesFest 2026 – fixed for 6th June 2026**

The date for MumblesFest 2026 was discussed and it was agreed to hold the event on the 6th June 2026.

The date of MumblesFest would be Saturday, 6 June 2026 subject to the Castle Grounds being available and there being no clashes with other events being held in Swansea. Should the 6 June 2026 not be suitable then the alternative date would be Saturday, 13 June 2026

**RECOMMENDED** that MumblesFest 2026 is held on 6 June 2026.

**CT2509-11** **Newsletter Update**

The 2025 Newsletter was discussed and due to Claire Anderson's recent departure from MCC, The Chair, Cllr O'Connor volunteered to progress the content of the Newsletter planned for publication in November 2025

**ACTION** Cllr O'Connor to liaise with CO over progressing the publication of the newsletter in November 2025.

**CT2509-12** **Mumbles Folk and Blues Festival Update / Beer Festival 'OctoberFest'**

Cllr Richard Jarvis updated the Committee on the arrangements for the Mumbles Folk and Blues Festival which is planned to take place on Saturday, 4 October 2025. Unfortunately, a number of potential venues had cancelled, however The Victoria Inn will be hosting a folk and blues event which has been supported through Cllr Jarvis donating part of his councillor's allowance.

**RESOLVED** To monitor the success of holding a folk and blues event at one venue with a view to increasing the scale of the event in future years. The event at the Victoria Inn will be treated as a 'taster session'- or pilot event.

**CO2509-13** **Cheese and Wine Event**

The Chair, Cllr O'Connor stated that with the departure of The Events Officer, Claire Anderson this proposal should be postponed pending the appointment of a new Events Officer. The committee believed that a Cheese & Wine Event would be very successful but required planning through an officer.

The Vice Chair, Cllr Marshall led tributes to the contribution made by Claire Anderson towards the many events organised through MCC. The whole committee wished to thank Claire and wish her well for the future.

**RESOLVED** to suspend The Cheese and Wine Event as an action pending the appointment of a new events officer.

**The meeting ended at 7.28pm.**

**Next Meeting Wednesday 22nd October 2025 at 6.30pm**

Mumbles Community Council

# Cofnodion y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu
# Cynhaliwyd ddydd Mercher, 24 Medi 2025 am 2pm
# Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Y Cynghorwyr Angela O'Connor (Cadeirydd), Rob Marshall (Is-gadeirydd), Richard Jarvis, David Lewis a Tim Zhou.

**Swyddogion yn bresennol:** Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**CT2509-01** **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Hysbysodd y Cynghorydd Martin O'Neill a'r Cynghorydd Jarvis y Cadeirydd y byddent yn cyrraedd yn hwyr.

**CT2509-02** **Datganiadau o fuddiant**
Dim

**CT2509-03** **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2025 fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2025 fel cofnod cywir.

**CT2509-04** **Diweddariad ar gamau gweithredu cyfarfodydd blaenorol.**
Rhoddodd y swyddog cymorth pwyllgorau yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am yr holl gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' a oedd heb eu cwblhau i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

**PENDERFYNWYD:** Diweddaru'r camau gweithredu heb eu cwblhau a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; cofnodi'r manylion yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu.

**CT2507-05** **Adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Gorffennaf 2025 – y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon**

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan Paul Beynon, y Swyddog Ariannol Cyfrifol, eisoes wedi'u dosbarthu i aelodau'r pwyllgor. Nid oedd unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r adroddiadau cyllideb wedi'u darparu i'r swyddog cymorth pwyllgorau na'r swyddog ariannol cyfrifol cyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Gorffennaf 2025.

**CT2509-06** **Cyllideb 2026-2027**

Roedd y Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi dosbarthu adroddiad ar amserlen y gyllideb ar gyfer 2026-2027 i'r pwyllgor yn flaenorol, ac roedd yr adroddiad yn amlinellu'r camau gweithredu y mae'n ofynnol i'r cyngor a'r pwyllgorau eu cymryd cyn i'r cyngor gymeradwyo'r gyllideb a'r praesept erbyn 31 Ionawr 2026.

**PENDERFYNWYD** trafod a chytuno ar unrhyw gynigion cyllidebol yng nghyfarfod mis Hydref a chyflwyno'r ffurflenni i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol cyn 31 Hydref 2025.

**CT2509-07** **Syniadau / digwyddiadau ar gyfer yr Hyb – argymhellion i swyddogion Cyngor Cymuned y Mwmbwls**

Trafodwyd y syniadau canlynol fel digwyddiadau posibl ar gyfer yr Hyb:

- Nosweithiau cabaret
- Swperau opera
- Digwyddiadau 'dros dro'
- Digwyddiadau coffi a chacen / te a thost.

Cynhaliwyd trafodaeth ar rôl y pwyllgor yn gwneud argymhellion i'r cyngor llawn ynghyd â rôl swyddogion o fewn gweithgor yr Hyb newydd ei greu. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch rôl y Pwyllgor Diwylliant yn gwneud argymhellion o'r fath yn uniongyrchol i'r cyngor llawn.

Darllenwyd yr adran berthnasol o gofnodion cyfarfod y cyngor llawn ym mis Medi gan y Swyddog Cymorth Pwyllgorau, a eglurodd benderfyniad y cyngor llawn i greu'r gweithgor newydd a'i rôl. Nodir yr adran berthnasol isod:
*Amlinellodd y Prif Swyddog a'r Cadeirydd, y Cynghorydd Will Thomas, y ffordd orau o fwrw ymlaen ag awgrymiadau mewn perthynas â Pharc Underhill. Consensws y cyngor llawn oedd, oherwydd nifer yr awgrymiadau / argymhellion posibl, na fyddai digon o amser i drafod syniadau o'r fath yn y cyngor llawn na hyd yn oed ar lefel pwyllgor. Cytunwyd mai dim ond â rheoli a threfnu'r gwaith o ddatblygu syniadau yr oedd yr eitem hon ar yr agenda yn ymwneud ac na ddylid trafod manylion yr awgrymiadau arfaethedig.*

*Penderfynwyd y dylid anfon unrhyw syniadau ac awgrymiadau mewn perthynas ag Underhill at weithgor, i gynnwys y Prif Swyddog, y Swyddog Archebu newydd ei benodi a Natalie Williams o'r Hyb i ddechrau. Yn dilyn asesiad cychwynnol o'r syniadau, bydd y rhai y bernir eu bod wedi cyrraedd y safon angenrheidiol yn cael eu hanfon ymlaen at y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol er mwyn gwneud argymhellion. Bydd proses apelio yn cael ei chreu.*

**CAM GWEITHREDU**, i'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau gyfathrebu â'r Prif Swyddog a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol a chadarnhau'r amserlen a'r aelodau i'w cynnwys yng ngweithgor argymhellion yr Hyb.

Ymunodd y Cynghorydd Jarvis â'r cyfarfod am 2.09pm

**CT2509-08** **Y newyddion diweddaraf am y ras rafftiau**

Cadarnhaodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, fod Cyngor Cymuned y Mwmbwls wedi darparu 'system seinydd' i drefnwyr y ras rafftiau, ond yn anffodus cafodd y digwyddiad ei ganslo oherwydd tywydd garw.

**CT2509-09** **Goleuadau Nadolig 2025**

Cyn y cyfarfod roedd dyfynbris manwl wedi'i ddarparu gan Phillips Services (Wales) Ltd ar gyfer llogi a gosod goleuadau o fewn Cyngor Cymuned y Mwmbwls. Roedd hyn wedi cael ei ddosbarthu i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod. Trafodwyd trefniadau ar gyfer goleuadau Nadolig yn 2025 gyda disgwyl i'r gost gyffredinol fod tua £19,000.

**ARGYMHELLWYD** bod y cyngor llawn yn cymeradwyo gwariant o hyd at £19,000 ar gyfer llogi a gosod goleuadau Nadolig o fewn ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls.
**O gyllidebau 3 a 4 y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu**

**CT2509-10** **Gŵyl y Mwmbwls 2026 – wedi'i threfnu ar gyfer 6 Mehefin 2026**

Trafodwyd dyddiad Gŵyl y Mwmbwls 2026 a chytunwyd cynnal y digwyddiad ar 6 Mehefin 2026.

Dydd Sadwrn, 6 Mehefin 2026 fyddai dyddiad Gŵyl y Mwmbwls, yn amodol ar fod Gerddi'r Castell ar gael ac nad oes unrhyw wrthdaro â digwyddiadau eraill a gynhelir yn Abertawe. Os nad yw 6 Mehefin 2026 yn addas, yna'r dyddiad amgen fyddai dydd Sadwrn, 13 Mehefin 2026

**ARGYMHELLWYD** cynnal Gŵyl y Mwmbwls 2026 ar 6 Mehefin 2026.

**CT2509-11** **Cylchlythyr - yr wybodaeth ddiweddaraf**

Trafodwyd Cylchlythyr 2025 ac oherwydd ymadawiad diweddar Claire Anderson o Gyngor Cymuned y Mwmbwls, gwirfoddolodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, i fwrw ymlaen â chynnwys y cylchlythyr a gynlluniwyd i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd 2025

**CAM GWEITHREDU** Bydd y Cynghorydd O'Connor yn cysylltu â'r Prif Swyddog ynghylch bwrw ymlaen â chyhoeddi'r cylchlythyr ym mis Tachwedd 2025.

**CT2509-12** **Y newyddion diweddaraf am Ŵyl Werin a Blŵs y Mwmbwls / Gŵyl Gwrw 'OktoberFest'**

Rhoddodd y Cynghorydd Richard Jarvis yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y trefniadau ar gyfer Gŵyl Werin a Blŵs y Mwmbwls a gynlluniwyd i'w chynnal ddydd Sadwrn, 4 Hydref 2025. Yn anffodus, roedd nifer o leoliadau posibl wedi canslo, ond, bydd y Victoria Inn yn cynnal digwyddiad gwerin a blŵs diolch i gefnogaeth gan y Cynghorydd Jarvis sydd wedi rhoi rhan o'i lwfans cynghorydd i gyfrannu at dalu'r costau.

**PENDERFYNWYD** Monitro llwyddiant cynnal digwyddiad gwerin a blŵs mewn un lleoliad gyda'r bwriad o gynyddu maint y digwyddiad yn y blynyddoedd i ddod. Bydd y digwyddiad yn y Victoria Inn yn cael ei drin fel 'sesiwn blasu' - neu ddigwyddiad peilot.

**CO2509-13** **Digwyddiad caws a gwin**

Dywedodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, gydag ymadawiad y Swyddog Digwyddiadau, Claire Anderson, y dylid gohirio'r cynnig hwn hyd nes y penodir Swyddog Digwyddiadau newydd. Roedd y pwyllgor yn credu y byddai digwyddiad caws a gwin yn llwyddiannus iawn ond bod angen cynllunio trwy swyddog.

Arweiniodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Marshall, deyrngedau i gyfraniad Claire Anderson at y llu o ddigwyddiadau a drefnwyd gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls. Dymunodd y pwyllgor cyfan ddiolch i Claire a dymuno'n dda iddi yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** gohirio'r digwyddiad caws a gwin fel cam gweithredu wrth aros am benodi Swyddog Digwyddiadau newydd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.28pm.**

**Cyfarfod nesaf ddydd Mercher 22 Hydref 2025 am 6.30pm**